# Y drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU

Cyhoeddwyd ar: 23 Mawrth 2023 (Diweddarwyd 6 Awst 2024)

# Cynnwys

## Adran

Cyflwyniad .......... 5
Diben Cyhoeddus 1: Amcanion ac Amodau Rheoleiddio .......... 8
Diben Cyhoeddus 2: Amcanion ac Amodau Rheoleiddio .......... 12
Diben Cyhoeddus 3: Amcanion ac Amodau Rheoleiddio .......... 14
Diben Cyhoeddus 4: Amcanion ac Amodau Rheoleiddio .......... 20
Diffiniadau a dehongliadau .......... 32

# Gwybodaeth am y ddogfen hon

Dyma fersiwn gyfunol answyddogol o'r drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU. Mae'n nodi'r amodau rheoleiddio y mae Ofcom yn ystyried sy'n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus; sef sicrhau darpariaeth sy'n cynnwys allbwn a gwasanaethau unigryw; a sicrhau bod holl gynulleidfaoedd y BBC yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.

Mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â'r amodau rheoleiddio yn y drwydded weithredu. Bydd Ofcom yn monitro cydymffurfiad â'r amodau rheoleiddio.

Mae'r fersiwn gyfunol answyddogol hon o'r drwydded weithredu yn ymgorffori, er hwylustod, yr holl amrywiadau a wnaed i'r drwydded weithredu ers mis Mawrth 2023 mewn un ddogfen. Er y gwneir pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir, ni ellir gwarantu cywirdeb yr wybodaeth, ac nid oes gan y ddogfen hon unrhyw rym cyfreithiol.

Felly, mewn perthynas â phob amrywiad penodol, fe'ch cynghorir i edrych ar yr hysbysiadau perthnasol a nodir mewn hysbysiadau amrywio neu yn adroddiadau blynyddol Ofcom ar y BBC, sydd wedi'u rhestru ar ein Gwefan, gan fod y rhain yn cynnwys yr addasiadau penodol sydd wedi cael eu gwneud.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, yn achos unrhyw wahaniaeth rhwng testunau, bydd testun fersiwn wreiddiol y drwydded weithredu a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2023 fel y'i diwygiwyd gan hysbysiadau dilynol a gyhoeddir ar wefan Ofcom, yn cael blaenoriaeth dros y fersiwn answyddogol hon o'r drwydded weithredu.

# Cyflwyniad

Dyma'r ail drwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU (y “Drwydded”). Drwy osod y Drwydded mae Ofcom wedi cyflawni ei swyddogaethau o dan y Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (y “Siarter”) a’r Cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a’r BBC (y “Cytundeb”), yn unol ag adran 198 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.[1]

Yn benodol, mae swyddogaethau Ofcom yn cynnwys[2] gosod trwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU sy’n cynnwys amodau rheoleiddio y mae Ofcom yn ystyried sy’n briodol er mwyn mynnu bod y BBC yn gwneud y canlynol:

- cyflawni ei Genhadaeth a hyrwyddo'r Dibenion Cyhoeddus;
- sicrhau y darperir allbwn a gwasanaethau unigryw; a
- sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.

Ar ben hynny, mae Ofcom wedi gosod y Drwydded yn unol â’r gofyniad[3] i orfodi amodau penodol[4] sy’n ymwneud â’r canlynol:

- natur unigryw;
- deunyddiau ar-lein trydydd partïon;
- newyddion a materion cyfoes (oriau ac amserlennu);
- cwotâu ar gyfer cynyrchiadau gwreiddiol; a
- chwotâu ar gyfer rhaglenni a chreu rhaglenni yn y gwledydd a’r rhanbarthau.

Ar ben hynny, mae Ofcom wedi gorfodi amodau pellach yn y Drwydded y mae’n ystyried sy’n briodol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i’r BBC sicrhau bod cynulleidfaoedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael gwasanaeth da.[5]

Mae’r Drwydded yn berthnasol i bob un o Wasanaethau Cyhoeddus y BBC yn y DU[6] ac mae’n berthnasol i bob un o wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig.

Yn unol â darpariaethau’r Siarter a’r Cytundeb, mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth ac yn hyrwyddo ei Ddibenion Cyhoeddus, yn ogystal â gosod y cyfeiriad strategol a’r cylch gwaith creadigol er mwyn gwneud hynny.[7] Y Bwrdd, yn hytrach nag Ofcom, sy’n gyfrifol am osod cyllidebau a strategaethau ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau’r BBC.

Mae Ofcom wedi gosod y Drwydded yn unol â darpariaethau perthnasol y Fframwaith Gweithredu.[8]

Caiff Ofcom ddiwygio’r Drwydded hon. Cyn diwygio’r Drwydded, bydd Ofcom yn ymgynghori â'r BBC. Bydd Ofcom hefyd yn ymgynghori ag unrhyw un arall y mae’n ystyried sy’n briodol yng ngoleuni

[1] Mae Adran 198 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn darparu ar gyfer swyddogaethau Ofcom mewn perthynas â’r BBC.
[2] Erthygl 46(3) y Siarter.
[3] Cymal 13(2) y Cytundeb.
[4] “Amodau rheoleiddio’r drwydded weithredu” a nodir yn Atodlen 2 i’r Cytundeb.
[5] Cymal 13(4) y Cytundeb.
[6] Mae Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn golygu’r gwasanaethau sydd wedi’u cynnwys ar y rhestr a gynhelir ac a gyhoeddwyd gan y BBC o dan Ran 1 Atodlen 1 i’r Cytundeb, fel y caiff ei haddasu gan y BBC o bryd i'w gilydd.
[7] Erthygl 20(3)(a) a (b) y Siarter.
[8] Mae Erthygl 46(3) y Siarter yn nodi bod yn rhaid i Ofcom bennu trwydded weithredu ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn unol â’r Fframwaith Gweithredu. Mae Ofcom wedi cyhoeddi gweithdrefnau ar gyfer pennu a diwygio’r drwydded.

natur a defnyddioldeb y diwygiad arfaethedig, yn unol â darpariaethau perthnasol y Fframwaith Gweithredu.

Mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio ag amodau rheoleiddio'r Drwydded wrth ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU.[9] Mae'n rhaid i Ofcom fynnu bod y BBC yn cydymffurfio ag amodau rheoleiddio'r Drwydded,[10] ac, yn benodol, efallai y bydd Ofcom yn ystyried cwynion a wneir i Ofcom gan unrhyw unigolyn, ac yn cynnal pa ymchwiliadau bynnag y mae Ofcom yn eu hystyried yn briodol.[11] Hefyd, mae'n rhaid i Ofcom sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â rhai gofynion rheoleiddio[12] sy'n berthnasol i'r BBC yn uniongyrchol drwy'r Siarter a'r Cytundeb, neu drwy ddeddfwriaeth, fel cwotâu ar gyfer cynyrchiadau annibynnol,[13] a gofynion mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer pobl sydd â nam ar y golwg neu'r clyw.[14]

Os yw Ofcom yn fodlon bod y BBC wedi methu cydymffurfio ag un o Amodau Rheoleiddio'r Drwydded, a'i fod wedi rhoi cyfle rhesymol i'r BBC roi sylwadau ar y mater, gall Ofcom:

- roi cyfarwyddyd i'r BBC gymryd camau y mae Ofcom yn ystyried y byddant yn unioni'r methiant i gydymffurfio (neu dderbyn ymrwymiadau i wneud hynny gan y BBC), a sicrhau bod y BBC yn cydymffurfio â'u gofynion yn briodol yn y dyfodol;
- cyflwyno hysbysiad i'r BBC yn datgan y bydd yn rhaid talu cosb ariannol benodedig o hyd at £250,000 i Ofcom o fewn cyfnod penodol.[15]

Mae Ofcom wedi gwneud darpariaeth yn y Fframwaith Gweithredu o ran sut bydd yn defnyddio ei bwerau gorfodi.[16]

Mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi cynllun blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, cyn y cyfnod y mae'n berthnasol iddo, ac mae'n rhaid iddo gynnwys (ymysg pethau eraill) y cylch gwaith creadigol ar gyfer y flwyddyn honno, y cynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn honno, a'r ddarpariaeth ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig.[17] Hefyd, mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ac mae'n rhaid iddo gynnwys (ymysg pethau eraill) sut mae'r BBC wedi cyflawni ei gylch gwaith creadigol a'i gynllun gwaith; darpariaeth y BBC ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys sut cyflawnodd y BBC ei gylch gwaith creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau; sut sicrhawyd bod allbwn a gwasanaethau'r BBC ar gael i'r cyhoedd; a'r gwariant ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU yn ôl genre.[18]

Ar ôl derbyn adroddiad blynyddol y BBC, mae'n rhaid i Ofcom hefyd gyhoeddi adroddiad blynyddol, sy'n nodi sut mae Ofcom wedi cyflawni ei brif swyddogaethau o dan y Siarter ledled y Deyrnas Unedig. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys asesiad Ofcom o gydymffurfiad y BBC ag amodau

---

[9] Cymal 7(2) y Cytundeb.
[10] Mae'r amodau rheoleiddio yn "ofynion penodol" o dan gymal 59(b) y Cytundeb.
[11] Erthygl 49(1) y Siarter.
[12] Mae pwerau gorfodi Ofcom wedi'u nodi o dan Erthygl 49 y Siarter a chymal 59 y Cytundeb (diffiniad o "ofynion penodol").
[13] Paragraff 6 Atodlen 3 i'r Cytundeb, ac Atodlen 12 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.
[14] Paragraff 9 Atodlen 3 i'r Cytundeb.
[15] Erthygl 49(2) i (5) y Siarter ac adran 198(5) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae Ofcom yn pasio unrhyw gosbau ariannol y mae'n eu derbyn fel tâl ymlaen at Drysorlys EF.
[16] Ofcom, 2017. Gweithdrefnau ar gyfer gorfodi gofynion yng Nghytundeb y BBC a chydymffurfiad â chamau gorfodi Ofcom.
[17] Erthygl 37 y Siarter.

rheoleiddio'r Drwydded.[19] Mae gan Ofcom y pŵer i fynnu bod y BBC yn darparu gwybodaeth at ddibenion Ofcom er mwyn iddo allu cyflawni ei swyddogaethau.[20]

[19] Erthygl 50 y Siarter.
[20] Erthygl 47 y Siarter.

# Diben Cyhoeddus 1: Darparu newyddion a gwybodaeth ddiduedd i helpu pobl i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas

Mae Erthygl 6 y Siarter yn nodi Diben Cyhoeddus 1: *"Dylai'r BBC ddarparu rhaglenni newyddion, materion cyfoes a ffeithiol sy'n ddigon cywir a diduedd er mwyn gwella dealltwriaeth pobl o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a'r byd ehangach. Dylai'r cynnwys gael ei ddarparu yn unol â'r safonau golygyddol uchaf. Dylai gynnig cynnwys a dadansoddiadau manwl ac amrywiol, nad ydynt ar gael yn helaeth gan ddarparwyr newyddion eraill y Deyrnas Unedig, drwy ddefnyddio newyddiadurwyr a chyflwynwyr o'r radd flaenaf, a hybu rhyddid mynegiant, er mwyn i'r holl gynulleidfaoedd allu ymgysylltu'n llawn â materion pwysig lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn fyd-eang, yn ogystal â chyfrannu at y broses ddemocrataidd, ar bob lefel, fel dinasyddion gweithredol a gwybodus."*

## Diben Cyhoeddus 1 – amcanion

Wrth hyrwyddo Diben Cyhoeddus 1, mae Ofcom o'r farn y dylai'r BBC wneud y canlynol yn benodol:

- Amcan 1: Dylai'r BBC sicrhau bod rhaglenni newyddion a materion cyfoes o ansawdd uchel, yn fanwl ac yn rhoi sylw i straeon lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, y DU a rhyngwladol. Dylai'r cynnwys fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd ac yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth eang o'r hyn sy'n digwydd yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn y byd ehangach;
- Amcan 2: Wrth ddarparu rhaglenni a chynnwys newyddion a materion cyfoes, dylai'r BBC gymryd camau i gyrraedd, i wasanaethu ac i ymgysylltu â'r holl gynulleidfaoedd a gwneud ei gynnwys newyddion a materion cyfoes yn hawdd ei ganfod.

## Diben Cyhoeddus 1 – amodau rheoleiddio

Mae Ofcom yn gosod yr amodau rheoleiddio canlynol ar y BBC y mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw, ac y bydd Ofcom yn eu gorfodi.

1.1 Wrth ddarparu **Gwasanaethau Cyhoeddus y DU**, mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â'r canlynol:

1.1.1 amodau 1.2 i 1.16 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2023, drwy gydol Cyfnod y Drwydded; ac

1.1.2 amodau 1.17 i 1.19 sy'n dod i rym o 23 Mawrth 2023 hyd at ddiwedd Cyfnod y Drwydded.

### Gwasanaethau ar-lein

1.2 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu:

1.2.1 newyddion a gwybodaeth ddyddiol ar gyfer pob cynulleidfa, sy'n ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau a rhaid iddo gynnwys newyddion a dadansoddiadau manwl;

1.2.2 newyddion a gwybodaeth ddyddiol i blant. Rhaid i hyn gael ei ddarparu drwy gynnwys mewn amrywiaeth o fformatau gwahanol (gan gynnwys erthyglau testun, fideos a darnau rhyngweithiol), ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau a chynnwys newyddion a dadansoddiadau manwl; a

1.2.3 dolenni digonol at ddeunydd a ddarperir gan drydydd partïon.

1.3 Mewn perthynas â **BBC iPlayer** a **BBC Sounds**, mae'n rhaid i'r BBC wneud y canlynol:

1.3.1 sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru'n rheolaidd i gynnwys y bwletinau a'r rhaglenni newyddion diweddaraf sydd ar gael;

1.3.2 sicrhau bod modd canfod y rhaglenni newyddion diweddaraf yn hawdd; a

1.3.3 darparu rhaglenni materion cyfoes a'u gwneud yn hawdd i'w canfod.

## Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU

1.4 Mewn perthynas â **BBC One**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

1.4.1 ei fod yn dangos rhaglenni newyddion rhwydwaith yn aml drwy gydol y dydd;

1.4.2 bod o leiaf 1,520 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion rhwydwaith ym mhob Blwyddyn Galendr, ac mae'n rhaid i o leiaf 280 o'r oriau hynny fod yn ystod yr Oriau Gwylio Brig. At ddibenion y gofyniad hwn, nid yw "rhaglenni newyddion rhwydwaith" yn cynnwys rhaglenni dros nos sy'n gyd-ddarllediadau o'r rhaglenni ar sianel BBC News, a

1.4.3 bod o leiaf 45 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni materion cyfoes rhwydwaith yn ystod yr Oriau Gwylio Brig ym mhob Blwyddyn Galendr.

1.5 Mewn perthynas â **BBC One** a **BBC Two** gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 450 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni materion cyfoes yn ystod bob Blwyddyn Galendr, a rhaid i o leiaf 106 o'r oriau hynny fod yn ystod yr Oriau Gwylio Brig.

1.6 Mewn perthynas â **BBC Three**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn dangos rhaglenni newyddion sydd â'r bwriad o apelio at bobl ifanc rhwng 16 a 34 oed, bob diwrnod o'r wythnos (heblaw am Wyliau Cyhoeddus).

1.7 Mewn perthynas â **CBBC**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

1.7.1 ei fod yn dangos newyddion bob dydd (ac eithrio ar ddiwrnodau sy'n dod o fewn Cyfnod y Nadolig); a

1.7.2 bod o leiaf 35 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer newyddion ym mhob Blwyddyn Ariannol.

1.8 Mewn perthynas â sianel **BBC News**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu newyddion lleol, rhanbarthol, cenedlaethol, y DU a rhyngwladol o ansawdd uchel.

## Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU

1.9 Mewn perthynas â **Radio 1**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

1.9.1 bod o leiaf 280 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer newyddion ym mhob Blwyddyn Ariannol;

1.9.2 ei fod yn darparu o leiaf ddau fwletin newyddion estynedig yn ystod y Dydd bob diwrnod o Ddydd Llun i Ddydd Gwener (ac eithrio ar Wyliau Banc), ac mae'n rhaid i o leiaf un o'r rhain fod yn ystod yr Oriau Gwrando Brig; ac

1.9.3 ei fod yn darparu bwletinau newyddion rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd.

1.10 Mewn perthynas â **1Xtra**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

1.10.1 bod o leiaf 280 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer newyddion ym mhob Blwyddyn Ariannol;

1.10.2 ei fod yn darparu o leiaf ddau fwletin newyddion estynedig yn ystod y Dydd bob diwrnod o Ddydd Llun i Ddydd Gwener (ac eithrio Gwyliau Cyhoeddus); ac

1.10.3 ei fod yn darparu bwletinau newyddion rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd.

1.11 Mewn perthynas â **Radio 2**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

1.11.1 bod o leiaf 867 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes bob Blwyddyn Ariannol a bod yn rhaid i o leiaf 153 awr fod yn ystod yr Oriau Gwrando Brig; ac

1.11.2 yn darparu bwletinau newyddion rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd.

1.12 Mewn perthynas â **Radio 3**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu bwletinau newyddion rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd.

1.13 Mewn perthynas â **Radio 4**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

1.13.1 bod o leiaf 2,750 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ym mhob Blwyddyn Ariannol; a

1.13.2 bod adroddiadau dyddiol ynghylch gweithgareddau Seneddol yn cael eu darparu pan mae'r Senedd yn eistedd.

1.14 Mewn perthynas â **BBC Radio 5 Live**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

1.14.1 bod yn rhaid i o leiaf 70% o'i allbwn ym mhob Blwyddyn Ariannol fod yn rhaglenni newyddion a materion cyfoes; a

1.14.2 bod sylw helaeth yn cael ei roi i etholiadau lleol a chyffredinol, ac etholiadau yn siambrau datganoledig y Deyrnas Unedig, yn ogystal â sylw rheolaidd i wleidyddiaeth ryngwladol.

1.15 Mewn perthynas â **BBC 6 Music**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

1.15.1 bod o leiaf 306 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer newyddion ym mhob Blwyddyn Ariannol; ac

1.15.2 ei fod yn darparu bwletinau newyddion rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd.

1.16 Mewn perthynas â **BBC Asian Network**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

1.16.1 bod o leiaf 1,224 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes ym mhob Blwyddyn Ariannol; ac

1.16.2 ei fod yn darparu bwletinau newyddion rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd.

## Y gofynion o ran tryloywder

1.17 Rhaid i'r BBC gyhoeddi'n flynyddol, ar yr un pryd ag y bydd yn cyhoeddi ei Gynllun Blynyddol, y camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn ystod y Flwyddyn Ariannol y mae'r Cynllun Blynyddol yn ymwneud â hi i gydymffurfio ag amodau 1.2 ac 1.3, gan gynnwys unrhyw Newidiadau Sylweddol y mae'n bwriadu eu gwneud yn y flwyddyn honno a'r rhesymau dros y newidiadau hynny.

1.18 Rhaid i'r BBC hefyd gyhoeddi unrhyw Newidiadau Sylweddol sy'n: (i) cael eu cynllunio gan y BBC ar ôl iddo gyhoeddi gwybodaeth yn barod o dan amod 1.17 ar gyfer y Flwyddyn Ariannol bresennol; ac (ii) y bwriedir eu rhoi ar waith cyn cyhoeddi gwybodaeth o dan amod 1.17 ar gyfer y Flwyddyn Ariannol ddilynol. Rhaid cyflawni'r cyhoeddiad y cyfeirir ato yn yr amod hwn cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r BBC wneud ei gynlluniau mewn perthynas ag unrhyw Newidiadau Sylweddol o'r fath.

1.19 Rhaid i'r BBC gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn, ddim hwyrach na phythefnos ar ôl iddo gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol, ynghylch a oedd wedi cymryd y camau a nodwyd ganddo o dan amod 1.17 yn ystod y Flwyddyn Ariannol y mae'r Adroddiad Blynyddol yn ymwneud â hi, gan gynnwys p'un a yw: (i) wedi gwneud Newidiadau Sylweddol i'r cynlluniau hynny, gan gynnwys y rhai a wnaed o dan amod 1.18; ac (ii) os felly, beth oedd y newidiadau hynny a'r rhesymau dros y newidiadau hynny.

# Diben Cyhoeddus 2: Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed

Mae Erthygl 6 y Siarter yn nodi Diben Cyhoeddus 2: *“Dylai’r BBC helpu pawb i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffyrdd a fydd yn hwylus iddynt, yn ddifyr, yn ysbrydoli ac yn heriol. Dylai’r BBC ddarparu cynnwys addysgol arbenigol er mwyn helpu i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig. Dylai annog mwy o bobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy feithrin partneriaethau gyda sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant.”*

## Diben Cyhoeddus 2 – amcanion

Wrth hyrwyddo Diben Cyhoeddus 2, mae Ofcom o’r farn y dylai’r BBC wneud y canlynol yn benodol:

- Amcan 1: Dylai’r BBC ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys sy’n hwyluso ac yn hybu dysgu ar gyfer cynulleidfaoedd o bob oed, gan gynnwys mewn amrywiaeth o genres a phynciau;
- Amcan 2: Wrth ddarparu cynnwys ar gyfer dysgu, dylai gymryd camau i gyrraedd, gwasanaethu ac ymgysylltu â phob cynulleidfa a'i gwneud yn hawdd darganfod cynnwys dysgu.

## Diben Cyhoeddus 2 – amodau rheoleiddio

Mae Ofcom yn gosod yr amodau rheoleiddio canlynol ar y BBC y mae’n rhaid i’r BBC gydymffurfio â nhw, ac y bydd Ofcom yn eu gorfodi.

2.1 Wrth ddarparu **Gwasanaethau Cyhoeddus y DU**, mae’n rhaid i’r BBC gydymffurfio â’r canlynol:

2.1.1 amodau 2.2 i 2.5 sy’n dod i rym ar 1 Ebrill 2023, drwy gydol Cyfnod y Drwydded;

2.1.2 amodau 2.6 i 2.8 sy’n dod i rym o 23 Mawrth 2023 hyd at ddiwedd Cyfnod y Drwydded.

2.2 Mewn perthynas â **Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU** gyda’i gilydd, **Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU** gyda’i gilydd a **BBC Ar-lein**, rhaid i’r BBC sicrhau ei fod yn darparu cynnwys sy’n hwyluso ac yn annog dysgu anffurfiol i oedolion a phlant o bob oed.

2.3 Wrth gydymffurfio ag amod 2.2, rhaid i’r BBC gymryd camau i gyrraedd, gwasanaethu ac ymgysylltu â phob cynulleidfa a rhaid iddo wneud ei gynnwys dysgu anffurfiol ar-lein yn hawdd ei ganfod.

2.4 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae’n rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys sy’n cynorthwyo plant a phobl ifanc â’u dysgu ffurfiol ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.

2.5 Mewn perthynas â **CBeebies**, mae’n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu amrywiaeth eang o gynnwys sy’n cefnogi dysgu plant cyn oed ysgol.

## Y gofynion o ran tryloywder

2.6 Rhaid i'r BBC gyhoeddi'n flynyddol, ar yr un pryd ag y bydd yn cyhoeddi ei Gynllun Blynyddol, y camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn ystod y Flwyddyn Ariannol y mae'r Cynllun Blynyddol yn ymwneud â hi i gydymffurfio ag amodau 2.2 a 2.5, gan gynnwys unrhyw Newidiadau Sylweddol y mae'n bwriadu eu gwneud yn y flwyddyn honno a'r rhesymau dros y newidiadau hynny.

2.7 Rhaid i'r BBC hefyd gyhoeddi unrhyw Newidiadau Sylweddol sy'n: (i) cael eu cynllunio gan y BBC ar ôl iddo gyhoeddi gwybodaeth yn barod o dan amod 2.6 ar gyfer y Flwyddyn Ariannol bresennol; ac (ii) y bwriedir eu rhoi ar waith cyn cyhoeddi gwybodaeth o dan amod 2.6 ar gyfer y Flwyddyn Ariannol ddilynol. Rhaid cyflawni'r cyhoeddiad y cyfeirir ato yn yr amod hwn cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r BBC wneud ei gynlluniau mewn perthynas ag unrhyw Newidiadau Sylweddol o'r fath.

2.8 Rhaid i'r BBC gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn, ddim hwyrach na phythefnos ar ôl iddo gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol, ynghylch a oedd wedi cymryd y camau a nodwyd ganddo o dan amod 2.6 yn ystod y Flwyddyn Ariannol y mae'r Adroddiad Blynyddol yn ymwneud â hi, gan gynnwys p'un a yw: (i) wedi gwneud Newidiadau Sylweddol i'r cynlluniau hynny, gan gynnwys y rhai a wnaed o dan amod 2.7; ac (ii) os felly, beth oedd y newidiadau hynny a'r rhesymau dros y newidiadau hynny.

# Diben Cyhoeddus 3: Dangos yr allbwn a'r gwasanaethau mwyaf creadigol, unigryw ac o'r ansawdd gorau

Mae Erthygl 6 y Siarter yn nodi Diben Cyhoeddus 3: "*Dylai'r BBC ddarparu allbwn o safon uchel mewn nifer o wahanol genres ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau, sy'n gosod y safonau yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Dylai ei wasanaethau fod yn wahanol i'r rheini sy'n cael eu darparu mewn mannau eraill, a dylai gymryd risgiau creadigol, hyd yn oed os nad ydy pob un yn llwyddiannus, er mwyn datblygu dulliau gweithredu newydd a chynnwys arloesol.*"

## Diben Cyhoeddus 3 – amcanion

Wrth hyrwyddo Diben Cyhoeddus 3, mae Ofcom o'r farn y dylai'r BBC wneud y canlynol yn benodol:

- Amcan 1: Dylai'r BBC ddarparu amrywiaeth eang o gynnwys gwreiddiol a newydd o'r DU, gan gyfrannu at economïau creadigol y Deyrnas Unedig drwy ei fuddsoddiad parhaus yn y cynnwys hwn;
- Amcan 2: Dylai'r BBC ddarparu amrywiaeth eang o allbwn gan roi sylw i wahanol genres a mathau o gynnwys, gan gynnwys genres nad ydynt yn cael eu darparu'n ddigonol neu sy'n dirywio ar draws darlledu gwasanaeth cyhoeddus (gan gynnwys: cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, comedi a rhaglenni plant);
- Amcan 3: Dylai'r BBC sicrhau bod allbwn pob gwasanaeth o ansawdd uchel, yn unigryw ac yn cefnogi talent a lleisiau newydd y DU. Wrth ddatblygu'r allbwn hwn, dylai arloesi, bod yn uchelgeisiol a chymryd risgiau;
- Amcan 4: Wrth sicrhau bod pob cynulleidfa yn y DU yn gallu dod o hyd i gynnwys gwreiddiol o'r DU yn hawdd, dylai'r BBC barhau i archwilio sut gall arloesi yn y ffyrdd mae'n ymgysylltu ac yn cyrraedd cynulleidfaoedd.

## Diben Cyhoeddus 3 – amodau rheoleiddio

Mae Ofcom yn gosod yr amodau rheoleiddio canlynol ar y BBC y mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw, ac y bydd Ofcom yn eu gorfodi.

3.1 Wrth ddarparu **Gwasanaethau Cyhoeddus y DU**, mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â'r canlynol:

3.1.1 amodau 3.2 i 3.12 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2023, drwy gydol Cyfnod y Drwydded;

3.1.2 amodau 3.13 i 3.16 sy'n dod i rym o 23 Mawrth 2023 hyd at ddiwedd Cyfnod y Drwydded.

### Gwasanaethau ar-lein

3.2 Mewn perthynas â **BBC iPlayer** a **BBC Sounds**, mae'n rhaid i'r BBC wneud y canlynol:

3.2.1 darparu ystod eang o gynnwys gwreiddiol o’r DU;
3.2.2 cefnogi talent newydd y DU ac arloesedd creadigol, gan gynnwys comisiynu teitlau ac allbwn newydd gan amrywiaeth eang o gynhyrchwyr annibynnol;
3.2.3 darparu amrywiaeth eang o allbwn yn cwmpasu gwahanol genres a mathau o gynnwys, gan gynnwys cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd, moeseg a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, comedi a rhaglenni plant; a
3.2.4 ei gwneud yn hawdd dod o hyd i’w gynnwys gwreiddiol o’r DU.

3.3 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae’n rhaid i’r BBC gymryd camau i gyrraedd, gwasanaethu ac ymgysylltu â phob cynulleidfa, gan gynnwys arbrofi â dulliau darparu arloesol lle bo hynny’n briodol.

## Gwasanaethau teledu

3.4 Mewn perthynas â **Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU** gyda’i gilydd, mae’n rhaid i’r BBC wneud y canlynol:

3.4.1 darparu ystod eang o gynnwys gwreiddiol o’r DU;
3.4.2 cefnogi talent newydd y DU ac arloesedd creadigol, gan gynnwys comisiynu teitlau ac allbwn newydd gan amrywiaeth eang o gynhyrchwyr annibynnol;
3.4.3 darparu amrywiaeth eang o allbwn yn cwmpasu gwahanol genres a mathau o gynnwys, gan gynnwys cerddoriaeth, y celfyddydau, crefydd, moeseg a chynnwys ffeithiol arbenigol arall, comedi a rhaglenni plant; a
3.4.4 chymryd camau i gyrraedd, gwasanaethu ac ymgysylltu â phob cynulleidfa.

### Teledu a BBC iPlayer: Rhaglenni Gwreiddiol o’r DU sy’n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf

3.5 Mewn perthynas â **BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, CBBC, CBeebies** a **BBC iPlayer** gyda’i gilydd, mae’n rhaid i’r BBC sicrhau ei fod yn darparu o leiaf 6,650 awr ym mhob Blwyddyn Galendr o amrywiaeth eang o raglenni gwreiddiol o’r DU sy’n cael eu dangos am y tro cyntaf.

3.6 At ddibenion amod 3.5, mae cyfeiriadau at oriau:

3.6.1 mewn perthynas â **Gwasanaeth Teledu Cyhoeddus y DU**, yn golygu oriau sy’n cael eu mesur mewn slotiau amser ar gyfer rhaglenni gyda slotiau amser o 10 munud neu fwy, neu oriau sy’n cael eu mesur mewn amseroedd rhedeg ar gyfer rhaglenni sydd ag amser slot o lai na 10 munud; ac
3.6.2 mewn perthynas â rhaglenni sydd ar gael ar **BBC iPlayer** yn unig, mae’n golygu oriau sy’n cael eu mesur mewn amseroedd rhedeg.

### Teledu: cynyrchiadau gwreiddiol

3.7 Ym mhob Blwyddyn Galendr rhaid i’r BBC sicrhau yr amser sy’n cael ei neilltuo ar gyfer darlledu cynyrchiadau gwreiddiol gan bob **Gwasanaeth Teledu Cyhoeddus yn y DU** a nodir yng ngholofn I isod:

3.7.1 nad yw’n llai na’r ganran o gyfanswm yr amser sy’n cael ei neilltuo i ddarlledu'r holl raglenni ar gyfer y gwasanaeth a nodir yng ngholofn II; ac
3.7.2 nad yw’n llai na’r ganran o gyfanswm yr amser sy’n cael ei neilltuo i ddarlledu'r holl raglenni ar gyfer y gwasanaeth hwnnw yn ystod yr Oriau Gwylio Brig, a nodir yng ngholofn III.

Mae "Cynyrchiadau Gwreiddiol", mewn perthynas â **Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU** gyda'i gilydd, yn golygu'r un fath â'r hyn a nodir yng Ngorchymyn Darlledu (Cynyrchiadau Gwreiddiol) 2004 neu unrhyw orchymyn dilynol o dan adran 278(6) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 mewn perthynas â sianel gwasanaeth cyhoeddus drwyddedig.

| **Colofn I** | **Colofn II** | **Colofn III** |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Cynyrchiadau Gwreiddiol fel canran o oriau'r holl raglenni** | **Cynyrchiadau Gwreiddiol yn ystod Oriau Gwylio Brig fel canran o oriau'r holl raglenni yn ystod Oriau Gwylio Brig** |
| BBC One | 75% | 90% |
| BBC Two | 75% | 90% |
| BBC Four | 65% | - |
| BBC Parliament | 90% | - |
| Sianel BBC News | 90% | - |
| CBeebies | 70% | - |
| CBBC | 66% yn 2023<br>68% yn 2024 ac ym mhob Blwyddyn Galendr ddilynol | - |
| BBC Alba | 75% | - |
| BBC Scotland | 75% | - |
| BBC Three | 75% | - |

# Gwasanaethau radio

3.8 Mewn perthynas â **Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU**, mae'n rhaid i'r BBC wneud y canlynol:

3.8.1 darparu ystod eang o gynnwys gwreiddiol o'r DU;

3.8.2 cefnogi talent newydd y DU ac arloesedd creadigol, gan gynnwys comisiynu teitlau ac allbwn newydd gan amrywiaeth eang o gynhyrchwyr annibynnol;

3.8.3 darparu amrywiaeth eang o allbwn yn cwmpasu gwahanol genres a mathau o gynnwys, gan gynnwys y celfyddydau, crefydd, moeseg, rhaglenni dogfen,[21] drama a chomedi; a

[21] Er mwyn dangos hyn, gallai'r rhaglenni dogfen yma gynnwys rhaglenni ar bynciau fel gwleidyddiaeth, busnes, y gyfraith, cyllid, iechyd, addysg, bwyd a ffermio, materion rhyngwladol, crefydd, moeseg, teithio, garddio a rhaglenni i helpu cynulleidfaoedd ddatblygu eu dealltwriaeth o gerddoriaeth a phynciau diwylliannol eraill fel hanes, gwyddoniaeth, athroniaeth, ffilm, celfyddydau gweledol a llenyddiaeth.

3.8.4 chymryd camau i gyrraedd, gwasanaethu ac ymgysylltu â phob cynulleidfa.

3.9 Mewn perthynas â **Radio 1**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

3.9.1 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 45% o'r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd gan artistiaid o'r DU;

3.9.2 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 50% o'r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd yn Gerddoriaeth Newydd, a rhaid i gyfran sylweddol fod gan artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dechrau dod i'r amlwg yn y DU;

3.9.3 bod o leiaf 3,129 awr o gerddoriaeth arbenigol yn cael eu darlledu bob Blwyddyn Ariannol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "cerddoriaeth arbenigol" yn golygu cerddoriaeth sy'n apelio at grwpiau penodol o wrandawyr ac sy'n canolbwyntio ar genre penodol o gerddoriaeth neu ar gerddoriaeth flaengar o amrywiaeth o genres;

3.9.4 bod o leiaf 175 o sesiynau newydd byw neu wedi'u recordio yn ystod y tri mis blaenorol, yn cael eu darlledu bob Blwyddyn Ariannol (heb gynnwys ailddarllediadau);

3.9.5 bod yr orsaf yn chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr tebyg, gan ystyried sawl gwaith y caiff caneuon eu chwarae a maint y rhestr chwarae, yn ystod y Dydd ac yn ystod yr Oriau Gwrando Brig;[22] ac

3.9.6 mae'n cynnig ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol mawr.

3.10 Mewn perthynas â **Radio 2**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

3.10.1 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 40% o'r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd gan artistiaid o'r DU;

3.10.2 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 20% o'r gerddoriaeth a ddarlledir yn ystod y Dydd yn Gerddoriaeth Newydd, a rhaid i gyfran sylweddol fod gan artistiaid newydd ac artistiaid sy'n dechrau dod i'r amlwg yn y DU;

3.10.3 bod o leiaf 68 awr o gerddoriaeth fyw neu gerddoriaeth newydd wedi'i recordio'n arbennig yn cael eu darlledu ym mhob Blwyddyn Ariannol (heb gynnwys ailddarllediadau);

3.10.4 bod o leiaf 1,100 awr o raglenni cerddoriaeth arbenigol yn cael eu darlledu bob Blwyddyn Ariannol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "cerddoriaeth arbenigol" yn golygu cerddoriaeth sy'n apelio at grwpiau penodol o wrandawyr ac sy'n canolbwyntio ar genre penodol o gerddoriaeth neu ar gerddoriaeth flaengar o amrywiaeth o genres; a

3.10.5 bod yr orsaf yn chwarae amrywiaeth ehangach o gerddoriaeth na darparwyr tebyg, gan ystyried sawl gwaith y caiff caneuon eu chwarae a maint y rhestr chwarae, yn ystod y Dydd ac yn ystod yr Oriau Gwrando Brig.[23]

3.11 Mewn perthynas â **BBC Radio 3**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

---

[22] At ddibenion adnabod darparwyr tebyg, mae'r disgrifiad o wasanaeth Radio 1 a gyhoeddwyd o dan Ran 1, Atodlen 1 i'r Cytundeb, a'r cynulleidfaoedd y mae'n eu denu, yn ystyriaethau pwysig. Wrth ddefnyddio'r dull gweithredu hwn, rydym yn disgwyl y bydd gwasanaeth radio sy'n cynnig gwasanaeth cerddoriaeth boblogaidd, sy'n chwarae cerddoriaeth newydd ac sy'n apelio at gynulleidfaoedd ifanc yn ddarparwr tebyg i Radio 1.

[23] At ddibenion adnabod darparwyr tebyg, mae'r disgrifiad o wasanaeth Radio 2 a gyhoeddwyd o dan Ran 1, Atodlen 1 i'r Cytundeb, a'r cynulleidfaoedd y mae'n eu denu, yn ystyriaethau pwysig. I'r graddau mae Radio 2 yn cyflawni ei ofyniad i chwarae cerddoriaeth arbenigol drwy chwarae cerddoriaeth o'r fath y tu allan i'r Oriau Gwrando Brig a heb fod yn ystod y Dydd, ni fyddem yn ystyried bod gorsaf sy'n arbenigo mewn genre cerddoriaeth arbenigol yn ddarparwr tebyg.

3.11.1 bod o leiaf 45% o'i allbwn cerddorol yn gerddoriaeth fyw neu wedi'i recordio'n arbennig ym mhob Blwyddyn Ariannol; ac

3.11.2 ei fod yn comisiynu ac yn darlledu gweithiau cerddorol newydd.

3.12 Mewn perthynas â **BBC Radio 5 Live**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod sylwebaeth fyw yn cael ei chynnig mewn perthynas ag o leiaf 20 o chwaraeon ym mhob Blwyddyn Ariannol.

## Y gofynion o ran tryloywder

3.13 Rhaid i'r BBC nodi a chyhoeddi'n flynyddol, ar yr un pryd ag y bydd yn cyhoeddi ei Gynllun Blynyddol, y camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn ystod y Flwyddyn Ariannol y mae'r Cynllun Blynyddol yn ymwneud â hi i gydymffurfio ag amodau 3.2 i 3.4 a 3.8, gan gynnwys unrhyw Newidiadau Sylweddol y mae'n bwriadu eu gwneud yn y flwyddyn honno a'r rhesymau dros y newidiadau hynny.

3.14 Wrth gydymffurfio ag amod 3.13, mae'n rhaid i'r BBC:

3.14.1 esbonio ei gynlluniau ar gyfer sicrhau bod pob **Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU** yn unigryw, gan gynnwys ei gynlluniau ar gyfer sicrhau bod **BBC iPlayer**, **BBC Sounds** a **Gwefan y BBC** yn unigryw;

3.14.2 esbonio sut mae ei ddull o brynu yn cefnogi natur unigryw ac yn hyrwyddo ymgysylltu â chynulleidfaoedd;

3.14.3 nodi oriau'r Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf y mae'n bwriadu eu darparu ar **BBC One, BBC Two, BBC Three, BBC Four, CBBC, CBeebies** a **BBC iPlayer** ac egluro sut bydd hyn yn galluogi pob cynulleidfa i elwa ar amrywiaeth o gynnwys newydd o ansawdd o'r DU sy'n apelio atynt;

3.14.4 nodi ar wahân ar gyfer **Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU** gyda'i gilydd a **BBC iPlayer**, ei gynlluniau i ddarparu amrywiaeth o genres a mathau o gynnwys, gan gynnwys cerddoriaeth a'r celfyddydau, crefydd, cynnwys ffeithiol arbenigol arall a chomedi. Ar gyfer pob un o'r genres penodol hyn, mae'n rhaid i'r BBC nodi'r oriau arfaethedig, yr oriau arfaethedig o Raglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf ac oriau arfaethedig cynnwys sydd wedi'i brynu;

3.14.5 nodi ar wahân ar gyfer **Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU** gyda'i gilydd a **BBC iPlayer**, ei gynlluniau i ddarparu amrywiaeth o genres a mathau o gynnwys ar gyfer rhaglenni plant, gan gynnwys drama, ffeithiol, adloniant ac addysg. Mae'n rhaid i'r BBC nodi: (i) ar gyfer rhaglenni plant gyda'i gilydd, yr oriau arfaethedig o gynnwys wedi'i brynu; (ii) ar gyfer pob un o'r genres a'r mathau o gynnwys a nodir yn yr amod hwn, yr oriau arfaethedig a'r oriau arfaethedig o Raglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf;

3.14.6 nodi'r wybodaeth ganlynol mewn perthynas â **Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU**:

3.14.6.1 oriau arfaethedig o raglenni dogfen (gan gynnwys ailddarllediadau) ac oriau arfaethedig o raglenni dogfen newydd ar **Radio 1, 1Xtra, Radio 2, Radio 4,** a **BBC 6 Music**;

3.14.6.2 oriau arfaethedig o raglenni celfyddydol (gan gynnwys ailddarllediadau) ac oriau arfaethedig o raglenni celfyddydol newydd ar **Radio 2**;

3.14.6.3 oriau arfaethedig o raglenni dogfen ar bynciau celfyddydol a diwylliannol (gan gynnwys ailddarllediadau) ac oriau arfaethedig o raglenni dogfen newydd ar bynciau celfyddydol a diwylliannol ar **Radio 3**;

3.14.6.4 oriau arfaethedig o raglenni crefyddol (gan gynnwys ailddarllediadau) ac oriau arfaethedig o raglenni crefyddol newydd ar **Radio 2** a **Radio 4**;

3.14.6.5 nifer arfaethedig o berfformiadau byw neu wedi'u recordio'n arbennig ar **Radio 3**;

3.14.6.6 nifer y gweithiau cerddorol newydd y mae'n bwriadu eu comisiynu a'u darlledu ar **Radio 3**; a

3.14.6.7 chynlluniau ar gyfer ymgyrchoedd gweithredu cymdeithasol ar ei **Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU**, ac yn enwedig **Radio 1**.

3.15 Rhaid i'r BBC hefyd gyhoeddi unrhyw Newidiadau Sylweddol sy'n: (i) cael eu cynllunio gan y BBC ar ôl iddo gyhoeddi gwybodaeth yn barod o dan amod 3.13 ar gyfer y Flwyddyn Ariannol bresennol; ac (ii) y bwriedir eu rhoi ar waith cyn cyhoeddi gwybodaeth o dan amod 3.13 ar gyfer y Flwyddyn Ariannol ddilynol. Rhaid cyflawni'r cyhoeddiad y cyfeirir ato yn yr amod hwn cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r BBC wneud ei gynlluniau mewn perthynas ag unrhyw Newidiadau Sylweddol o'r fath.

3.16 Rhaid i'r BBC esbonio a chyhoeddi'n flynyddol, ddim hwyrach na phythefnos ar ôl iddo gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol, adroddiad ar y canlynol:

3.16.1 a oedd wedi cymryd y camau yr oedd wedi'u nodi o dan amodau 3.13 a 3.14 yn ystod y Flwyddyn Ariannol y mae'r Adroddiad Blynyddol yn ymwneud â hi, gan gynnwys: (i) a oedd wedi gwneud Newidiadau Sylweddol i'r cynlluniau hynny, gan gynnwys y rhai a wnaed o dan amod 3.15; ac (ii) os felly, beth oedd y newidiadau hynny a'r rhesymau dros y newidiadau hynny;

3.16.2 nifer y chwaraeon yr oedd yn rhoi sylw iddynt gyda sylwebaeth fyw ar **BBC Radio 5 Live** ac oriau pob math o chwaraeon a gafodd sylwebaeth fyw ar **BBC Radio 5 Live** yn ystod y flwyddyn honno; a'r

3.16.3 cyfraniad a wnaeth cerddoriaeth arbenigol at natur unigryw **Radio 1** a **Radio 2** yn ystod y flwyddyn honno.

# Diben Cyhoeddus 4: Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig, a chefnogi'r economi greadigol ledled y Deyrnas Unedig drwy wneud hynny

Mae Erthygl 6 y Siarter yn nodi Diben Cyhoeddus 4: *"Dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Drwy wneud hynny, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu yn gywir ac yn ddilys fywydau pobl y Deyrnas Unedig heddiw, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau gwahanol a safbwyntiau amgen sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at lesiant a chydlyniant cymdeithasol y Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC, drwy ei waith comisiynu a darparu allbwn, fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad."*

## Diben Cyhoeddus 4 – amcanion

Wrth hyrwyddo Diben Cyhoeddus 4, mae Ofcom o'r farn y dylai'r BBC wneud y canlynol yn benodol:

- Amcan 1: Dylai'r BBC sicrhau bod ei Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU yn adlewyrchu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r DU ar draws ei genres. Dylai gynrychioli a phortreadu cymunedau amrywiol y DU yn gywir ac yn ddilys a chodi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau. Wrth wneud hynny, dylai'r BBC gymryd camau i sicrhau bod ei gynnwys a gwneuthurwyr rhaglenni'n adlewyrchu cyfansoddiad gwahanol gymunedau o holl wledydd a rhanbarthau'r DU;
- Amcan 2: Dylai'r BBC ddosbarthu ei fuddsoddiad mewn amrywiaeth o gynyrchiadau o bob cwr o'r DU a sicrhau ei fod yn cefnogi twf cynaliadwy yn y diwydiannau creadigol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU;
- Amcan 3: Wrth wasanaethu a chreu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd o holl wledydd a rhanbarthau'r DU, dylai'r BBC gymryd camau i gyrraedd, gwasanaethu ac ymgysylltu â phob cynulleidfa a gwneud cynnwys yn hawdd ei ddarganfod. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, dylai hyn gynnwys cynnwys yn yr ieithoedd brodorol ac amrywiaeth eang o genres.

# Diben Cyhoeddus 4 – amodau rheoleiddio

Mae Ofcom yn gosod yr amodau rheoleiddio canlynol ar y BBC y mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â nhw, ac y bydd Ofcom yn eu gorfodi.

4.1 Wrth ddarparu **Gwasanaethau Cyhoeddus y DU**, mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â'r canlynol:

4.1.1 amodau 4.2 i 4.66 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2023, drwy gydol Cyfnod y Drwydded;

4.1.2 amodau 4.67 i 4.70 sy'n dod i rym o 23 Mawrth 2023 hyd at ddiwedd Cyfnod y Drwydded.

## Amrywiaeth, portreadu a chynrychioli cynulleidfaoedd

4.2 Mae'n rhaid i'r BBC gyhoeddi'n flynyddol, ddim hwyrach na phythefnos ar ôl iddo gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol, sut mae **Gwasanaethau Cyhoeddus y DU** yn gyffredinol wedi adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn ystod y Flwyddyn Ariannol y mae'r Adroddiad Blynyddol yn ymwneud â hi. Yn benodol, mae'n rhaid i'r BBC ddangos sut mae wedi:

4.2.1 ystyried yr ystod o gymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig. Dylai hyn gynnwys oedran, anabledd, hil, crefydd a chred, rhyw, hunaniaeth rhywedd,[24] cyfeiriadedd rhywiol a chefndir economaidd-gymdeithasol;

4.2.2 gwasanaethu a darparu cynnwys ar gyfer yr ystod o gymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig;

4.2.3 cynrychioli cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig yn gywir;

4.2.4 rhoi portread dilys o'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig; a

4.2.5 chodi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau amgen y cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig.

4.3 Rhaid i'r BBC gyhoeddi bob blwyddyn, ddim hwyrach na phythefnos ar ôl iddo gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol, adroddiad ar i ba raddau y mae'r BBC wedi gwneud cynnydd yn ystod y Flwyddyn Ariannol y mae'r Adroddiad Blynyddol yn ymwneud â hi er mwyn cyrraedd ei dargedau cynrychioli a/neu bortreadu, gan gynnwys ei dargedau ar y sgrin ac ar yr awyr.

4.4 Rhaid i'r BBC gyhoeddi bob blwyddyn, ddim hwyrach na phythefnos ar ôl iddo gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol, adroddiad ar fodlonrwydd cynulleidfaoedd ar draws **Gwasanaethau Cyhoeddus y DU** yn gyffredinol yn ystod y Flwyddyn Ariannol y mae'r Adroddiad Blynyddol yn ymwneud â hi. Rhaid i hyn gynnwys mesuriadau o foddhad cynulleidfaoedd yn y meysydd canlynol:

4.4.1 sut mae'r BBC yn cynrychioli, yn portreadu ac yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol;

4.4.2 sut mae'r BBC yn adlewyrchu cymunedau amrywiol y Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd ar sgrin ac ar yr awyr, gan roi sylw penodol i gynnwys sy'n cael ei ddarlledu am y tro cyntaf ym mhob genre; a

4.4.3 sut mae'r BBC yn codi ymwybyddiaeth o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau.

4.5 Rhaid i'r BBC gyhoeddi, ar yr un pryd ag y bydd yn cyhoeddi ei Gynllun Blynyddol, y camau y bydd yn eu cymryd yn ystod y Flwyddyn Ariannol y mae'r Cynllun Blynyddol yn ymwneud â hi

[24] Mae "hunaniaeth rhywedd" yn cynnwys y nodwedd warchodedig "ailbennu rhywedd" fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

i geisio gwella bodlonrwydd cynulleidfaoedd ymysg grwpiau cynulleidfa y mae wedi nodi eu bod yn llai bodlon na grwpiau cynulleidfa eraill â pherfformiad y BBC yn ei adroddiad o dan amod 4.4.

4.6 Rhaid i'r BBC gyhoeddi, ddim hwyrach na phythefnos ar ôl iddo gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol, a oedd wedi cymryd y camau a nodwyd ganddo o dan amod 4.5 yn ystod y Flwyddyn Ariannol y mae'r Adroddiad Blynyddol yn ymwneud â hi, gan gynnwys yr effaith a gafodd y camau hynny ar fodlonrwydd cynulleidfaoedd yn y grwpiau cynulleidfa penodol hynny.

4.7 Mae'n rhaid i'r BBC bennu a chydymffurfio â chod ymarfer wedi'i gymeradwyo gan Ofcom, sy'n nodi'r camau y bydd y BBC yn eu cymryd pan fydd yn comisiynu cynnwys ar draws pob genre er mwyn sicrhau bod cynnwys o'r fath yn cynrychioli'n gywir ac yn rhoi portread dilys ac yn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig. Mae'n rhaid i'r cod ymarfer gynnwys comisiynau sy'n cael eu cynhyrchu'n fewnol gan y BBC a chomisiynau sy'n cael eu cynhyrchu'n allanol.

4.8 Yn benodol, mae'n rhaid i'r cod ymarfer nodi'r camau y bydd y BBC yn eu cymryd wrth gomisiynu cynnwys mewn perthynas â'r canlynol:

- 4.8.1 portreadu ar y sgrin a chastio;
- 4.8.2 amrywiaeth gweithlu'r timau cynhyrchu a gomisiynwyd;
- 4.8.3 y broses benderfynu o ran cynhyrchu a chomisiynu;
- 4.8.4 pennu disgwyliadau timau cynhyrchu a gomisiynwyd; a
- 4.8.5 monitro cydymffurfiad timau cynhyrchu a gomisiynwyd â'r disgwyliadau sydd wedi'u gosod o dan amod 4.8.4.

4.9 Mae'n rhaid i'r BBC fonitro ei fod yn cydymffurfio â'r cod ymarfer a rhaid iddo gyflwyno adroddiad blynyddol i Ofcom ar ei gydymffurfiad â'r cod ymarfer yn ystod y Flwyddyn Ariannol flaenorol.

4.10 Wrth gydymffurfio ag amod 4.9, rhaid i'r BBC adrodd ar nifer y comisiynau lle nad oedd timau cynhyrchu wedi bodloni'r disgwyliadau a osodwyd o dan amod 4.8.4 gan nodi a oedd y rhain yn gomisiynau mewnol neu allanol a'r camau y mae wedi'u cymryd mewn perthynas ag unrhyw dîm cynhyrchu a gomisiynwyd nad oedd yn bodloni'r disgwyliadau a osodwyd o dan amod 4.8.4.

4.11 Caiff Ofcom wneud y canlynol unrhyw bryd, drwy hysbysu'r BBC yn ysgrifenedig:

- 4.11.1 cymeradwyo addasiadau i god cymeradwy pan fydd Ofcom o'r farn y byddai'r cod fel y'i diwygiwyd yn diwallu'r amcanion a nodwyd yn amod 4.7; neu
- 4.11.2 rhoi'r gorau i gymeradwyo cod pan fydd Ofcom yn credu nad yw'r cod yn diwallu'r amcanion a nodir yn amod 4.7 mwyach.

4.12 Mae'n rhaid i'r BBC fonitro ac adrodd i Ofcom bob blwyddyn ar amrywiaeth holl staff (cyflogeion a gweithwyr llawrydd) y BBC sy'n cael eu cyflogi mewn perthynas â darparu **Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU**[25]. Rhaid i'r adroddiad fod ar ffurf a bennir gan Ofcom a rhaid iddo gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

[25] Nid yw Gwasanaethau Cyhoeddus y DU yn cynnwys y World Service na gwasanaethau masnachol y BBC.

4.12.1 nifer y staff o'r fath yn ôl oedran, anabledd, hil, crefydd a chred, rhyw, hunaniaeth rhywedd,[26] cyfeiriadedd rhywiol a chefndir economaidd-gymdeithasol;

4.12.2 lefel swyddi staff o'r fath yn ôl categorïau sydd i'w pennu gan Ofcom;

4.12.3 math o swydd staff o'r fath yn ôl categorïau sydd i'w pennu gan Ofcom;

4.12.4 y graddau y mae'r BBC wedi gwneud cynnydd tuag at gyrraedd ei dargedau amrywiaeth y gweithlu.

4.13 Nid oes dim byd yn amod 4.12 yn mynnu bod y BBC yn darparu unrhyw wybodaeth i Ofcom pan fyddai darparu gwybodaeth o'r fath yn torri deddfwriaeth diogelu data perthnasol.

4.14 Caiff Ofcom gyhoeddi unrhyw adroddiad a ddarperir gan y BBC o dan amodau 4.9 neu 4.12.

## Creu rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau: rhaglenni teledu rhwydwaith

### Y Deyrnas Unedig (y tu allan i Ardal yr M25)

4.15 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Galendr:

4.15.1 bod o leiaf 50% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud y tu allan i Ardal yr M25;

4.15.2 bod y Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig y tu allan i Ardal yr M25 (gyda'i gilydd) yn cynrychioli ystod briodol o raglenni; a

4.15.3 bod o leiaf 50% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig i'w briodoli i raglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu y tu allan i Ardal yr M25.

### Lloegr (y tu allan i Ardal yr M25)

4.16 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

4.16.1 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 30% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yn Lloegr (y tu allan i Ardal yr M25); ac

4.16.2 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 30% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig i'w briodoli i raglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yn Lloegr (y tu allan i Ardal yr M25).

4.17 Caiff y BBC ofyn yn ysgrifenedig i ganran yr oriau o Raglenni Rhwydwaith a bennir yn amod 4.16.1 gael eu cwtogi mewn perthynas â Blwyddyn Galendr benodol. Bydd Ofcom yn ystyried unrhyw gais o'r fath a gall gytuno ar gais pan fydd hi'n ymddangos i Ofcom yn amgylchiadau penodol yr achos y byddai'r gostyngiad yn sicrhau cyfran addas o Raglenni Rhwydwaith.[27]

### Yr Alban

4.18 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Galendr:

[26] Mae "hunaniaeth rhywedd" yn cynnwys y nodwedd warchodedig "ailbennu rhywedd" fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

[27] Er mwyn dangos hyn, un enghraifft o pryd y gallai'r BBC fod eisiau gwneud cais o'r fath fyddai petai, mewn un flwyddyn benodol, yn cynnig comisiynu rhaglen ddrama ddrud i'w gwneud yn Lloegr (y tu allan i Ardal yr M25) ond y byddai'r cynnig yn golygu na fyddai'r BBC yn gallu cyflawni'r ganran a bennwyd o oriau yn Lloegr (y tu allan i Ardal yr M25) ar gyfer y flwyddyn honno.

4.18.1 bod o leiaf 8% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yn yr Alban; a

4.18.2 bod o leiaf 8% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig i'w briodoli i raglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yn yr Alban.

4.19 Caiff y BBC ofyn yn ysgrifenedig i ganran yr oriau o Raglenni Rhwydwaith a bennir yn amod 4.18.1 gael eu cwtogi mewn perthynas â Blwyddyn Galendr benodol. Bydd Ofcom yn ystyried unrhyw gais o'r fath a gall gytuno ar gais pan fydd hi'n ymddangos i Ofcom yn amgylchiadau penodol yr achos y byddai'r gostyngiad yn sicrhau cyfran addas o Raglenni Rhwydwaith.[28]

## Cymru

4.20 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

4.20.1 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 5% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yng Nghymru; ac

4.20.2 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 5% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig i'w briodoli i raglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yng Nghymru.

4.21 Caiff y BBC ofyn yn ysgrifenedig i ganran yr oriau o Raglenni Rhwydwaith a bennir yn amod 4.20.1 gael eu cwtogi mewn perthynas â Blwyddyn Galendr benodol. Bydd Ofcom yn ystyried unrhyw gais o'r fath a gall gytuno ar gais pan fydd hi'n ymddangos i Ofcom yn amgylchiadau penodol yr achos y byddai'r gostyngiad yn sicrhau cyfran addas o Raglenni Rhwydwaith.[29]

## Gogledd Iwerddon

4.22 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

4.22.1 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 3% o oriau'r Rhaglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig yn cael eu gwneud yng Ngogledd Iwerddon; ac

4.22.2 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 3% o Wariant y BBC ar Raglenni Rhwydwaith sy'n cael eu gwneud yn y Deyrnas Unedig i'w briodoli i raglenni a gynhyrchir mewn gwahanol ganolfannau cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon.

4.23 Caiff y BBC ofyn yn ysgrifenedig i ganran yr oriau o Raglenni Rhwydwaith a bennir yn amod 4.22.1 gael eu cwtogi mewn perthynas â Blwyddyn Galendr benodol. Bydd Ofcom yn ystyried unrhyw gais o'r fath a gall gytuno ar gais pan fydd hi'n ymddangos i Ofcom yn amgylchiadau penodol yr achos y byddai'r gostyngiad yn sicrhau cyfran addas o Raglenni Rhwydwaith.[30]

---

[28] Er mwyn dangos hyn, un enghraifft o pryd y gallai'r BBC fod eisiau gwneud cais o'r fath fyddai petai, mewn un flwyddyn benodol, yn cynnig comisiynu rhaglen ddrama ddrud i'w gwneud yn yr Alban ond y byddai'r cynnig yn golygu na fyddai'r BBC yn gallu cyflawni'r ganran a bennwyd o oriau yn yr Alban ar gyfer y flwyddyn honno.

[29] Er mwyn dangos hyn, un enghraifft o pryd y gallai'r BBC fod eisiau gwneud cais o'r fath fyddai petai, mewn un flwyddyn benodol, yn cynnig comisiynu rhaglen ddrama ddrud i'w gwneud yng Nghymru ond y byddai'r cynnig yn golygu na fyddai'r BBC yn gallu cyflawni'r ganran a bennwyd o oriau yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn honno.

[30] Er mwyn dangos hyn, un enghraifft o pryd y gallai'r BBC fod eisiau gwneud cais o'r fath fyddai petai, mewn un flwyddyn benodol, yn cynnig comisiynu rhaglen ddrama ddrud i'w gwneud yng Ngogledd Iwerddon ond byddai'r cynnig yn golygu na fyddai'r BBC yn gallu cyflawni'r ganran a bennwyd o oriau yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer y flwyddyn honno.

### Canolfannau cynhyrchu

4.24 Mae'r gwahanol ganolfannau cynhyrchu y mae'r Gwariant y cyfeirir ato yn amodau 4.15.3, 4.16.2, 4.18.2, 4.20.2 a 4.22.2, yn gorfod cynrychioli ystod eang o ganolfannau cynhyrchu o'r fath.

### Pwysoliad BBC Alba a BBC Scotland

4.25 At ddibenion amodau 4.15 i 4.23, rhaid i oriau a Gwariant ar Raglenni Rhwydwaith a wneir ar gyfer **BBC Alba** a **BBC Scotland** yn unig gael pwysoliad o sero.

### Cyd-gomisiynu

4.26 At ddibenion amodau 4.15 i 4.25, bydd cynnwys a gomisiynir ar y cyd rhwng: (i) **BBC Scotland**, **BBC Alba**, neu **amrywiad cenedlaethol neu ranbarthol** ar **Wasanaeth Teledu Cyhoeddus yn y DU**; ac (ii) unrhyw **Wasanaeth Teledu Cyhoeddus** arall yn y **DU** gael tu trin fel a ganlyn:

4.26.1 rhaid i Wariant ar gynnwys o'r fath yn cael ei ddyrannu i wasanaeth yn gymesur â'r cyfraniad canrannol y mae wedi'i wneud at gyfanswm y Gwariant; a

4.26.2 bydd oriau o gynnwys o'r fath yn oriau Rhaglenni Rhwydwaith.

### Cyfeirnod y

4.27 Wrth gydymffurfio ag amodau 4.15 i 4.26, rhaid i'r BBC roi ystyriaeth i unrhyw ganllawiau a allai gael eu cyhoeddi gan Ofcom.

## Creu rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau: gwasanaethau radio

4.28 Mewn perthynas â **Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU** sydd wedi cael eu llunio ar gyfer cynulleidfaoedd ar draws y DU[31] a **BBC Sounds** gyda'i gilydd, rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 30% o'r gwariant perthnasol yn digwydd y tu allan i Ardal yr M25 ym mhob Blwyddyn Ariannol. At ddibenion amodau 4.28 i 4.30, mae "gwariant perthnasol" yn golygu gwariant ar gynhyrchu rhaglenni (heb gynnwys gwariant ar gostau sydd wedi'u cyllido'n ganolog).

4.29 Er mwyn diwallu'r gofyniad yn amod 4.28, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod rhywfaint o'r gwariant perthnasol yn digwydd mewn perthynas â phob un o'r gwasanaethau radio canlynol:

4.29.1 Radio 1;
4.29.2 Radio 2;
4.29.3 Radio 3;
4.29.4 Radio 4;
4.29.5 BBC Radio 5 Live.

4.30 Mewn perthynas â **Radio 3**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 28% o'r gwariant perthnasol yn cael ei wario y tu allan i Ardal yr M25 bob Blwyddyn Ariannol.

## Rhaglenni yn y gwledydd a'r rhanbarthau

4.31 Mewn perthynas â **BBC One** a **BBC Two**, gyda'i gilydd, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

[31] Radio 1; 1Xtra; Radio 2; Radio 3; Radio 4; BBC 4 Extra; BBC Radio 5 Live; BBC Radio 5 Live Sports Extra; BBC 6 Music; BBC Asian Network.

4.31.1 ym mhob Blwyddyn Galendr bod o leiaf 5,000 awr yn cael eu neilltuo i raglenni sydd o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol;

4.31.2 bod y rhaglenni hynny'n cynnwys ystod briodol o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol);

4.31.3 bod o leiaf 95% o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni sydd wedi'u gwneud mewn gwlad neu ranbarth lle bydd y rhaglenni hynny o Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol;

4.31.4 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 200 awr o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion yn ystod yr Oriau Gwylio Brig; ac

4.31.5 ym mhob Blwyddyn Galendr bod o leiaf 150 awr o'r rhaglenni hynny'n cynnwys rhaglenni heb fod yn rhaglenni newyddion ar amseroedd yn union cyn neu ar ôl yr Oriau Gwylio Brig.

4.32 Mae'n rhaid i'r BBC sicrhau yn ystod bob Blwyddyn Galendr, bod yr amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer rhaglenni o ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol yn unol ag amod 4.31 yn cynnwys o leiaf 3,900 awr o newyddion sydd o ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol i'w darlledu yn achlysurol drwy gydol y dydd ar **BBC One**, a rhaid i o leiaf 1,700 o'r rheini fod yn ystod yr Oriau Gwylio Brig.

4.33 Wrth gydymffurfio ag amodau 4.31 a 4.32, rhaid i'r BBC ystyried unrhyw arweiniad allai gael ei gyhoeddi gan Ofcom.

4.34 Mewn perthynas â **BBC Parliament**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod o leiaf 300 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni ynghylch gweithgareddau Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd Cymru ym mhob Blwyddyn Ariannol.

4.35 Mewn perthynas â phob **Gwasanaeth Radio Cyhoeddus y DU** a bennir yn amod 4.36, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau, ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod cyfran y cynnwys sy'n gynnwys llafar ar y gwasanaeth hwnnw:

4.35.1 yn o leiaf 60% ar gyfartaledd yn ystod yr Oriau Craidd, ac eithrio mewn perthynas â **BBC Radio nan Gàidheal** y mae'n rhaid i'r BBC sicrhau bod cyfran y cynnwys sy'n gynnwys llafar yn o leiaf 40% ar gyfartaledd yn yr Oriau Craidd; a

4.35.2 100% yn ystod yr Oriau Brig Amser Brecwast.

4.36 Nodir y **Gwasanaethau Radio Cyhoeddus** canlynol o'r DU at ddiben amod 4.35:

4.36.1 BBC Radio Scotland;

4.36.2 BBC Radio nan Gàidheal;

4.36.3 BBC Radio Wales;

4.36.4 BBC Radio Cymru;

4.36.5 BBC Radio Ulster; a

4.36.6 BBC Radio Foyle.

## Lloegr[32]

4.37 Mewn perthynas â **BBC iPlayer, BBC Sounds, Gwefan y BBC** a'r amrywiadau ar **BBC One** ar gyfer rhanbarthau Lloegr, rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn rhanbarthau Lloegr.

4.38 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

4.38.1 ei fod yn darparu newyddion a gwybodaeth ar gyfer rhanbarthau Lloegr; ac

[32] Mae Radio Lleol y BBC ar gyfer Ynysoedd y Sianel wedi cael ei gynnwys o dan yr amodau hyn.

4.38.2 ei fod yn rhoi sylw arbennig i chwaraeon ar gyfer rhanbarthau Lloegr.

4.39 Wrth gydymffurfio ag amodau 4.37 a 4.38, rhaid i'r BBC ei gwneud yn hawdd dod o hyd i'w gynnwys ar-lein.

4.40 Mewn perthynas â phob gorsaf **Radio Lleol y BBC**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

4.40.1 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 60% o'r cynnwys ar gyfartaledd yn ystod Oriau Craidd yn gynnwys llafar;

4.40.2 ym mhob Blwyddyn Ariannol bod 100% o'r cynnwys yn ystod Oriau Brig Amser Brecwast yn gynnwys llafar;

4.40.3 bod bwletinau newyddion a gwybodaeth benodol berthnasol i'r ardaloedd a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu yn cael eu darparu yn rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd;

4.40.4 bod nifer sylweddol o newyddion a gwybodaeth benodol berthnasol i'r ardaloedd a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu yn cael eu darparu yn ystod Oriau Brig Amser Brecwast;

4.40.5 bod cynnwys arall penodol berthnasol i'r ardaloedd a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu yn cael ei ddarparu; ac

4.40.6 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 4,954 awr yn cael eu neilltuo ar bob un o orsafoedd **Radio Lleol y BBC** ar gyfer rhaglenni gwreiddiol sy'n cael eu gwneud yn lleol. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni gwreiddiol wedi'u gwneud yn lleol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu rhannu gyda gorsafoedd cyfagos ac yn cael eu darlledu rhwng 06:00 a 19:00.

4.41 Mae'r gofyniad yn amod 4.40.6 yn berthnasol i'r gorsafoedd **Radio Lleol y BBC** canlynol, fel pe bai'r amser a nodir yn y maes cyfatebol oedd y gofyniad lleiaf o ran rhaglenni gwreiddiol wedi'u gwneud yn lleol.

| Gorsaf Radio Lleol y BBC | Gofyniad lleiaf ar gyfer rhaglenni gwreiddiol wedi'u gwneud yn lleol |
|---|---|
| BBC Radio Guernsey | 4,171 awr |
| BBC Radio Jersey | 4,171 awr |
| BBC Radio Somerset | 3,650 awr |

## Yr Alban

4.42 Mewn perthynas â **BBC iPlayer, BBC Sounds, Gwefan y BBC, BBC One Scotland, BBC Scotland, BBC Alba, BBC Radio Scotland** a **BBC Radio nan Gàidheal**, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac yn berthnasol i gynulleidfaoedd yn yr Alban, gan gynnwys amrywiaeth eang o gynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant yr Alban.

4.43 Wrth gydymffurfio ag amod 4.42, mewn perthynas â **BBC Sounds**, **BBC Radio Scotland** a **BBC Radio nan Gàidheal**, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cerddoriaeth sy'n benodol berthnasol i gynulleidfaoedd yn yr Alban.

4.44 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu:

4.44.1 newyddion a gwybodaeth ar gyfer yr Alban;

4.44.2 darpariaeth chwaraeon benodol ar gyfer yr Alban; a

4.44.3 chynnwys Gaeleg.

4.45 Wrth gydymffurfio ag amodau 4.42 i 4.44, rhaid i'r BBC ei gwneud yn hawdd dod o hyd i'w gynnwys ar-lein.

4.46 Mewn perthynas â **BBC One Scotland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Ariannol:

4.46.1 bod o leiaf 290 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; ac
4.46.2 ei fod yn darparu rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes gan gynnwys rhai Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf.

4.47 Mewn perthynas â **BBC Scotland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

4.47.1 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 90% o'r Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu Dangos am y Tro Cyntaf yn y DU yn cael eu gwneud yn yr Alban;
4.47.2 ym mhob Blwyddyn Galendr, bod o leiaf 125 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer newyddion yn ystod yr Oriau Gwylio Brig; ac
4.47.3 ei fod yn darparu rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes gan gynnwys rhai Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf.

4.48 Mewn perthynas â **BBC Alba**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

4.48.1 bod y gwasanaeth yn cynnwys rhaglenni newyddion byw bob gyda'r nos o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, gan gynnwys yn ystod yr Oriau Gwylio Brig, ac adolygiad newyddion estynedig ar benwythnosau; ac
4.48.2 ei fod yn darparu rhaglenni sydd wedi'u hanelu at y rhai sy'n dysgu Gaeleg.

4.49 Mewn perthynas â **BBC Radio Scotland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

4.49.1 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 2,607 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau);
4.49.2 ei fod yn darparu bwletinau newyddion rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd; a
4.49.3 bod nifer o wasanaethau 'optio allan' rhanbarthol yn cael eu darparu o ddydd Llun i ddydd Gwener, sy'n cynnig newyddion, chwaraeon a gwybodaeth, yn ogystal â rhywfaint o raglenni 'optio allan' cymunedol rhanbarthol gyda'r nos.

4.50 Mewn perthynas â **BBC Radio nan Gàidheal**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn cynnwys newyddion yn rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd, yn enwedig rhwng 07:30 ac 08:30 a rhwng 16:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 09:00 a 11:00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul.

## Cymru

4.51 Mewn perthynas â **BBC iPlayer, BBC Sounds**, **gwefan y BBC**, **BBC One Wales**, **BBC Two Wales**, **BBC Radio Wales**, **BBC Radio Cymru** a **BBC Radio Cymru 2**, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru, gan gynnwys amrywiaeth eang o gynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant Cymru.

4.52 Wrth gydymffurfio ag amod 4.51, mewn perthynas â **BBC Sounds**, **BBC Radio Wales**, **BBC Radio Cymru** a **BBC Radio Cymru 2**, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cerddoriaeth sy'n benodol berthnasol i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

4.53 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu:

4.53.1 newyddion a gwybodaeth ar gyfer Cymru;
4.53.2 darpariaeth chwaraeon penodol ar gyfer Cymru; a
4.53.3 chynnwys yn y Gymraeg.

4.54 Wrth gydymffurfio ag amodau 4.51 i 4.53, rhaid i'r BBC ei gwneud yn hawdd dod o hyd i'w gynnwys ar-lein.

4.55 Mewn perthynas â **BBC One Wales**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Ariannol:

4.55.1 bod o leiaf 275 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; ac

4.55.2 ei fod yn darparu rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes gan gynnwys rhai Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf.

4.56 Mewn perthynas â **BBC Two Wales**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes gan gynnwys rhai Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf.

4.57 Mewn perthynas â **BBC Radio Wales**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

4.57.1 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 1,669 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau); ac

4.57.2 ei fod yn darparu bwletinau newyddion rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd.

4.58 Mewn perthynas â **BBC Radio Cymru**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

4.58.1 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 1,199 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau); ac

4.58.2 ei fod yn darparu bwletinau newyddion rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd.

4.58A Mewn perthynas â **BBC Radio Cymru 2,** mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu bwletinau newyddion dyddiol a rheolaidd o ddydd Llun i ddydd Sadwrn a bwletinau newyddion dyddiol ar ddydd Sul.

## Gogledd Iwerddon

4.59 Mewn perthynas â **BBC iPlayer, BBC Sounds, Gwefan y BBC, BBC One Northern Ireland, BBC Two Northern Ireland, BBC Radio Ulster** a **BBC Radio Foyle**, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys amrywiaeth eang o gynnwys sy'n adlewyrchu diwylliant Gogledd Iwerddon.

4.60 Wrth gydymffurfio ag amod 4.59, mewn perthynas â **BBC Sounds**, **BBC Radio Ulster** a **BBC Radio Foyle**, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu cerddoriaeth sy'n benodol berthnasol i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Iwerddon.

4.61 Mewn perthynas â **BBC Ar-lein**, mae'n rhaid i'r BBC ddarparu:

4.61.1 newyddion a gwybodaeth ar gyfer Gogledd Iwerddon;

4.61.2 darpariaeth chwaraeon penodol ar gyfer Gogledd Iwerddon; a

4.61.3 chynnwys mewn Gwyddeleg a Sgoteg Ulster.

4.62 Wrth gydymffurfio ag amodau 4.59 i 4.61, rhaid i'r BBC ei gwneud yn hawdd dod o hyd i'w gynnwys ar-lein.

4.63 Mewn perthynas â **BBC One Northern Ireland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ym mhob Blwyddyn Ariannol:

4.63.1 bod o leiaf 310 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes; ac

4.63.2 ei fod yn darparu rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes gan gynnwys rhai Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf.

4.64 Mewn perthynas â **BBC Two Northern Ireland**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu rhaglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes gan gynnwys rhai Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf.

4.65 Rhaid i'r BBC sicrhau ei fod yn darparu rhaglenni Gwyddeleg a rhaglenni Sgoteg Ulster ar un neu ragor o'r gwasanaethau canlynol: **BBC One Northern Ireland** a **BBC Two Northern Ireland**.

4.66 Mewn perthynas â **BBC Radio Ulster** a **BBC Radio Foyle**, mae'n rhaid i'r BBC sicrhau:

4.66.1 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 1,825 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar Radio Ulster;

4.66.2 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 1,043 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni newyddion a materion cyfoes (gan gynnwys ailddarllediadau) ar Radio Foyle;

4.66.3 ei fod yn darparu bwletinau newyddion yn rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd ar **BBC Radio Ulster** a **BBC Radio Foyle**; ac

4.66.4 ym mhob Blwyddyn Ariannol, bod o leiaf 240 awr yn cael eu neilltuo ar gyfer rhaglenni mewn ieithoedd brodorol lleiafrifol, gan gynnwys allbwn Gwyddeleg a Sgoteg Ulster. At ddibenion y gofyniad hwn, mae "rhaglenni mewn ieithoedd brodorol lleiafrifol" yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu hailddarlledu a rhaglenni sy'n cael eu prynu.

## Gofynion tryloywder ar gyfer rhaglenni'r gwledydd a'r rhanbarthau

4.67 Rhaid i'r BBC gyhoeddi'n flynyddol, ar yr un pryd ag y bydd yn cyhoeddi ei Gynllun Blynyddol, y camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn ystod y Flwyddyn Ariannol y mae'r Cynllun Blynyddol yn ymwneud â hi i ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn yr Alban, yng Nghymru, yng Ngogledd Iwerddon ac yn rhanbarthau Lloegr, gan gynnwys unrhyw Newidiadau Sylweddol y mae'n bwriadu eu gwneud yn y flwyddyn honno a'r rhesymau dros y newidiadau hynny.

4.68 Wrth gydymffurfio ag amod 4.67, mae'n rhaid i'r BBC gynnwys y canlynol:

4.68.1 ei gynlluniau mewn perthynas â **BBC iPlayer, BBC Sounds** a **Gwefan y BBC** i ddarparu cynnwys sydd o ddiddordeb ac sy'n berthnasol i gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau;

4.68.2 ar gyfer yr holl amrywiadau ar **BBC One** ar gyfer rhanbarthau Lloegr gyda'i gilydd, yr oriau o newyddion y mae'n bwriadu eu darparu;

4.68.3 ar gyfer pob un o'r canlynol: (i) yr holl amrywiadau ar **BBC One** ar gyfer rhanbarthau Lloegr gyda'i gilydd; (ii) **BBC Scotland**, (iii) **BBC One Scotland**, (iv) **BBC One Wales**, (v) **BBC Two Wales**, (vi) **BBC One Northern Ireland**, (vii) **BBC Two Northern Ireland** a (viii) **BBC iPlayer**, ei gynlluniau i ddarparu amrywiaeth o raglenni heb fod yn rhaglenni newyddion. Fel rhan o'r esboniad hwn, mae'n rhaid i'r BBC nodi:

4.68.3.1 oriau arfaethedig o raglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes;

4.68.3.2 oriau arfaethedig o raglenni materion cyfoes;

4.68.3.3 oriau arfaethedig o Raglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf ar wahân i newyddion a materion cyfoes;

4.68.3.4 oriau arfaethedig o raglenni materion cyfoes Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf; a

4.68.3.5 rhestr o'r genres penodol y mae'n bwriadu eu darparu.

4.68.4 oriau arfaethedig o Raglenni Rhwydwaith wedi'u hanelu'n benodol at gynulleidfaoedd yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

4.68.5 ar gyfer **BBC Alba** a **BBC iPlayer**, ei gynlluniau i ddarparu rhaglenni Gaeleg a rhaglenni sydd wedi'u hanelu at y rhai sy'n dysgu Gaeleg. Fel rhan o'r esboniad hwn, mae'n rhaid i'r BBC nodi:

4.68.5.1 oriau arfaethedig o raglenni sydd wedi'u hanelu at y rheini sy'n dysgu Gaeleg;

4.68.5.2 oriau arfaethedig o raglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf ac sydd wedi'u hanelu at y rhai sy'n dysgu Gaeleg;

4.68.5.3 oriau arfaethedig o raglenni Gaeleg; ac

4.68.5.4 oriau arfaethedig o raglenni Gaeleg Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf.

4.68.6 ar gyfer **BBC One Northern Ireland, BBC Two Northern Ireland** a **BBC iPlayer**, ei gynlluniau i ddarparu rhaglenni Gwyddeleg a Sgoteg Ulster. Fel rhan o'r esboniad hwn, mae'n rhaid i'r BBC nodi:

4.68.6.1 oriau arfaethedig o raglenni mewn Gwyddeleg, a Sgoteg Ulster; ac

4.68.6.2 oriau arfaethedig ar gyfer Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy'n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf yn y Wyddeleg a Sgoteg Ulster.

4.68.7 y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gydymffurfio ag amodau 4.39, 4.45, 4.54 a 4.62.

4.68.8 ei gynlluniau i ddarparu newyddion ar **BBC Radio Cymru 2**. Fel rhan o'r esboniad hwn, mae'n rhaid i'r BBC nodi pa mor aml y bwriedir darparu bwletinau newyddion.

4.69 Rhaid i'r BBC hefyd gyhoeddi unrhyw Newidiadau Sylweddol sy'n: (i) cael eu cynllunio gan y BBC ar ôl iddo gyhoeddi gwybodaeth yn barod o dan amod 4.67 ar gyfer y Flwyddyn Ariannol bresennol; ac (ii) y bwriedir eu rhoi ar waith cyn cyhoeddi gwybodaeth o dan amod 4.67 ar gyfer y Flwyddyn Ariannol ddilynol. Rhaid cyflawni'r cyhoeddiad y cyfeirir ato yn yr amod hwn cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r BBC wneud ei gynlluniau mewn perthynas ag unrhyw Newidiadau Sylweddol o'r fath.

4.70 Rhaid i'r BBC gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn, ddim hwyrach na phythefnos ar ôl iddo gyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol, ynghylch a oedd wedi cymryd y camau a nodwyd ganddo o dan amodau 4.67 a 4.68 yn ystod y Flwyddyn Ariannol y mae'r Adroddiad Blynyddol yn ymwneud â hi, gan gynnwys: (i) a oedd wedi gwneud Newidiadau Sylweddol i'r cynlluniau hynny, gan gynnwys y rhai a wnaed o dan amod 4.69 ac (ii) os felly, beth oedd y newidiadau hynny a'r rhesymau dros y newidiadau hynny.

# Diffiniadau a dehongliadau

5.1 Yn y Drwydded hon, oni bai fod y cyd-destun yn nodi'n wahanol:

Mae **"y Cytundeb"** yn golygu'r cytundeb rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a'r BBC a wnaed ar 7 Rhagfyr 2016 fel y'i diwygiwyd ar 26 Mai 2022;

Mae **"y BBC"** yn golygu'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig;

Mae **"BBC iPlayer"** yn golygu'r gwasanaeth clyweledol sy'n rhan o BBC Ar-lein;

Mae **"BBC One Northern Ireland"** yn golygu fersiwn o BBC One ar gyfer Gogledd Iwerddon;

Mae **"BBC One Scotland"** yn golygu fersiwn o BBC One ar gyfer yr Alban;

Mae **"BBC One Wales"** yn golygu fersiwn o BBC One ar gyfer Cymru;

Mae **"BBC Sounds"** yn golygu'r gwasanaeth sain sy'n rhan o BBC Ar-lein;

Mae **"BBC Two Northern Ireland"** yn golygu fersiwn o BBC Two ar gyfer Gogledd Iwerddon;

Mae **"BBC Two Wales"** yn golygu fersiwn o BBC Two ar gyfer Cymru;

Mae **"Gwefan y BBC"** yn golygu gwefan bbc.co.uk a chymwysiadau cysylltiedig sy'n rhan o BBC Ar-lein;

Mae **"Oriau Brig Amser Brecwast"** yn golygu rhwng 07:00 a 08:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac, mewn perthynas â BBC Radio nan Gàidheal, 07:30 a 08.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener;

Mae **"Blwyddyn Galendr"** yn golygu cyfnod o 12 mis yn dechrau ar 1 Ionawr;

Mae **"y Siarter"** yn golygu'r Siarter Brenhinol ar gyfer parhad y BBC am y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2027;

Mae **"cyfnod y Nadolig"** yn golygu unrhyw gyfnod o 14 diwrnod calendr sy'n dechrau ym mis Rhagfyr ac sy'n dod i ben ym mis Ionawr;

Mae **"Oriau Craidd"** yn golygu rhwng 06:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac, mewn perthynas â BBC Radio nan Gàidheal, 07:30 a 19.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener;

Mae **"yn ystod y Dydd"** yn golygu:

a) rhwng 06:00 a 18:00 mewn perthynas â Gwasanaeth Teledu Cyhoeddus y DU;

b) rhwng 06:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhwng 08:00 a 14:00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul mewn perthynas â Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU;

Mae **"Gwariant"** mewn perthynas â rhaglen yn golygu:

a) gwariant sy'n cael ei ystyried yn fuddsoddiad mewn rhaglen neu wariant y mae modd ei briodoli i'r gwaith o wneud y rhaglen; neu

b) gwariant ar gomisiynu neu brynu rhaglen, neu brynu hawl i gynnwys rhaglen mewn gwasanaeth neu ei darlledu;

Mae **"Blwyddyn Ariannol"** yn golygu cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill, a'r cyntaf o'r rheini'n cychwyn ar 1 Ebrill 2023;

Mae **“Rhaglenni Gwreiddiol o'r DU sy’n Cael eu Dangos am y Tro Cyntaf”** yn golygu rhaglenni sy’n cael eu comisiynu gan neu ar gyfer Gwasanaeth Cyhoeddus yn y DU ac nad ydynt wedi cael eu dangos o’r blaen ar deledu nac wedi bod ar gael ar-lein yn y Deyrnas Unedig;

Mae **“Cyfnod y Drwydded”** yn golygu'r cyfnod o 1 Ebrill 2023 i 31 Rhagfyr 2027;

Mae **“Ardal yr M25”** yn golygu’r ardal y tu allan i ffin y Drafforddd sy’n Amgylchynu Llundain (yr M25);

Mae **“y Genhadaeth”** yn golygu cenhadaeth y BBC fel y nodir yn Erthygl 5 y Siarter;

Mae rhaglen o **“Ddiddordeb Cenedlaethol neu Ranbarthol”** os yw’r canlynol yn berthnasol: (a) mae o ddiddordeb arbennig i bobl sy’n byw yn unrhyw un o’r gwledydd neu’r rhanbarthau canlynol – (i) Gogledd Iwerddon; (ii) yr Alban; (iii) Cymru; (iv) unrhyw ranbarth yn Lloegr y mae amrywiad rhanbarthol ar y gwasanaeth teledu dan sylw; a (b) mae wedi’i chynnwys yn yr amrywiad i’r gwasanaeth sy’n ymwneud â’r wlad neu’r rhanbarth hwnnw;

Mae **“Rhaglenni Rhwydwaith”** yn golygu rhaglenni sydd wedi’u creu er mwyn eu gwylio ar Wasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU, ac eithrio rhaglenni sydd wedi’u gwneud i'w gwylio ar amrywiad o wasanaeth o’r fath sy’n berthnasol i un o’r canlynol: (a) Gogledd Iwerddon; (b) Yr Alban; (c) Cymru; (d) unrhyw ranbarth yn Lloegr;

Bydd trac cerddoriaeth yn cael ei ystyried yn **“Gerddoriaeth Newydd”** am gyfnod o naill ai:

a) 12 mis ar ôl rhyddhau am y tro cyntaf (boed hynny drwy ddulliau ffisegol, radio, lawrlwytho neu ffrydio), neu

b) 6 wythnos o’r dyddiad pan fydd yn cyrraedd 20 Uchaf Siart Sengl Swyddogol y DU am y tro cyntaf,

pa un bynnag yw'r cynharaf;

Mae **“Ofcom”** yn golygu’r Swyddfa Gyfathrebiadau a sefydlwyd yn unol â Deddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002;

Mae **“Oriau Gwrando Brig”** yn golygu rhwng 06:00 a 10:00, a rhwng 16:00 a 19:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 07:00 ac 11:00 ar ddydd Sadwrn a dydd Sul;

Mae **“Oriau Gwylio Brig”** yn golygu;

a) 18:00 i 22:30 mewn perthynas â’r holl Wasanaethau Teledu Cyhoeddus yn y DU ac eithrio BBC Four;

b) 19:00 i 24:00 mewn perthynas â BBC Four;

Mae **“Gŵyl Gyhoeddus”** yn golygu Diwrnod Nadolig, Dydd Gwener y Groglith, neu ŵyl y banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971;

Mae **“Dibenion Cyhoeddus”** yn golygu dibenion cyhoeddus y BBC fel y nodir yn Erthygl 6 y Siarter;

Mae **“Newid Sylweddol”** i ddarpariaeth arfaethedig neu wirioneddol y BBC yn golygu newid a allai effeithio ar sut mae’r BBC yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd;

Mae **“Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU”** yn golygu’r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy’n cynnwys gwasanaethau rhaglenni radio, ac mae **“Gwasanaethau Radio Cyhoeddus y DU”** yn golygu unrhyw un o’r gwasanaethau hynny;

Mae **“Gwasanaethau Cyhoeddus y DU”** yn golygu'r gwasanaethau sydd wedi’u cynnwys ar y rhestr a gyhoeddwyd gan y BBC yn unol â Rhan 1 o Atodlen 1 y Cytundeb, fel y caiff ei haddasu gan y BBC o bryd i'w gilydd;

Mae **“Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU”** yn golygu’r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y DU sy’n cynnwys gwasanaethau rhaglenni teledu, ac mae **“Gwasanaethau Teledu Cyhoeddus y DU”** yn golygu unrhyw un o’r gwasanaethau hynny.

5.2 Mae’r term **“yn rheolaidd yn aml drwy gydol y dydd”** yn cael ei ddefnyddio yn yr amodau canlynol: 1.9.3, 1.10.3, 1.11.2, 1.12, 1.15.2, 1.16.2, 4.40.3, 4.49.2, 4.50, 4.57.2, 4.58.2, a 4.66.3. Ni ddylid darllen cyfeiriadau at y term hwnnw fel pe baent yn ei gwneud yn ofynnol i’r rhwymedigaeth ym mhob un o’r amodau hynny gael ei chyflawni yr un mor rheolaidd ac aml â’r rhwymedigaethau yn yr amodau eraill. Yn hytrach, y BBC fydd yn pennu pa mor rheolaidd a pha mor aml, a bydd Ofcom yn asesu hynny fesul achos, gan ystyried yr hyn sy’n briodol yng nghyd-destun pob rhwymedigaeth berthnasol.

5.3 Ni ddylid darllen amod fel un sy’n cyfrannu at y Diben Cyhoeddus y mae wedi’i restru oddi tano yn unig. Gall amod penodol gyfrannu at fwy nag un Diben Cyhoeddus yn y drwydded weithredu.

5.4 Mae ystyr y termau yn y Drwydded hon yr un fath ag yn y Siarter a’r Cytundeb, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall.

5.5 Mae geiriau yn yr unigol yn cynnwys y lluosog.

5.6 Dylai cyfeiriadau at ddeddfwriaeth benodol gael eu darllen fel cyfeiriad at y ddeddfwriaeth fel y caiff ei diwygio neu ei hailddeddfu o bryd i’w gilydd.

5.7 Gwneud pethau’n haws yw bwriad y penawdau ac nid ydynt yn rhan o'r amodau rheoleiddio.